

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Fercher, Ebrill 15: Dosbarth Beiblaidd yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Ebrill 19: Gwasanaethir am 10.00 (Oedfa Deulu) a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Mawrth, Ebrill 14: Bore Coffi er budd Cronfa Adnoddau'r Capel rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch.

Nos Fawrth, Ebrill 14: Ymweliad y Gymdeithas Undebol â Phant Du ym Mhenygroes.

Nos Fercher, Ebrill 15: Dosbarth Beiblaidd yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

Nos Wener, Ebrill 17: CIC am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Ebrill 12: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Parchg Reuben Roberts, Bontnewydd. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Mr Richard Ll Jones, Bethel.

Y mis nesaf - Deiniolen

Ebrill 12

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Elwyn Richards

Ebrill 19

10.00 a.m. - Y Gweinidog (Oedfa Deulu)
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Ebrill 26

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr Robert Morris

REHOBOTH

Dydd Sul, Ebrill 19: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Mawrth, Ebrill 14: Pwyllgor Gwaith y Cyfarfod Chwarter am 10.00 o'r gloch yn y festri.

Dydd Iau, Ebrill 18: Cynhelir 'Bwrlwm' am 2.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Ebrill 19: Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir gan Mr Dafydd Iwan, Caeathro.

CARMEL

Dydd Llun, Ebrill 13: Cynhelir y 'Te Bach' yn y festri rhwng 2.30 a 4.00 o'r gloch.

Nos Wener, Ebrill 17: Cynhelir 'Dwylo Prysyr' am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Ebrill 19: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal y Parchg Geraint Hughes, Pwllheli.

CYNLLUN EFE

Nos Lun, Ebrill 13: Cynhelir Pwyllgor Ymddiriedolwyr am 7.00 o'r gloch.

Dydd Gwener, Ebrill 17: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.

Y mis nesaf - Llanberis

Ebrill 12

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Ebrill 19

10.00 a.m. - Y Parchg Reuben Roberts
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr Richard Ll Jones

Ebrill 26

10.30 a.m. - Oedfa Deulu



Gronlyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 633: Dydd Sul, 12 Ebrill, 2015

Walter Scott

Os mai rhy brysur yn dathlu fy mhen blwydd oeddwn, mwyaf cywilydd i mi. Yn sicr, doeddwn i ddim yn cofio mai'r diwmod hwnnw y lladdwyd dyn ifanc 18 oed o'r enw Michael Brown yn nhref Ferguson yn Yr Unol Daleithiau. Fe'm hatgoffwyd o'r digwyddiad hwnnw gan yr hyn a ddigwyddodd yn Ne Carolina'r wythnos ddiwethaf pan laddwyd dyn 50 oed o'r enw Walter Scott. Yr hyn sy'n gyffredin i'r ddau achos oedd mai dyn croenddu gafodd ei saethu gan blismon croenwyn.

Rwy'n cofio enw Michael Brown, ond fe'm synnwyd o sylweddoli bod wyth mis cyfan ers iddo gael ei ladd. Ac fe'm synnwyd yn fwy o sylweddoli nad oes gen i gof o gwbl am Tamir Rice na Jerame Reid. Dim ond 12 oed oedd Tamir Rice pan laddwyd o mewn parc chwarae yn Cleveland fis Tachwedd y llynedd, a 36 oed oedd Jerame Reid pan laddwyd o yn New Jersey ym mis Rhagfyr. Yn y naill achos a'r llall eto, plismyn croenwyn a saethodd blentyn a dyn ifanc croenddu. Roedd lluniau fideo'n awgrymu nad oedd Jerame Reid yn gwneud dim ond camu allan o'i gar, wedi i'w gar gael ei stopio gan blismon, pan saethwyd o gan y plismon hwnnw. Ac yn achos Walter Scott, cafwyd lluniau fideo sy'n dangos yn glir i'r gwr hwnnw gael ei saethu yn ei gefn fwy nag unwaith gan blismon wrth geisio rhedeg oddi wrtho.

Nid yw'n syndod bod y marwolaethau hyn wedi achosi pryder mawr i bobl yn

yr Unol Daleithiau ac ar draws y byd. Nid yw'n syndod chwaith eu bod wedi arwain at dyndra mawr. Yn Ferguson ei hun wedi marwolaeth Michael Brown, cafwyd protestiadau heddychol a threisgar oherwydd pryder pobl bod honno'n enghraifft arall o'r plismyn a'r awdurdodau'n cam-drin pobl groenddu. Cafwyd hefyd brotestiadau yn Ne Carolina yr wythnos ddiwethaf wedi marwolaeth Walter Scott.

Ond cafwyd hefyd ymateb grasol ei frawd, Anthony Scott. 'Daliwch i weddio,' meddai, 'dros ein teulu ni, i ni ddod trwy hyn. Oherwydd mae arnom angen gweddi, gan fod gweddi yn newid pethau. A bydd cyfiawnder yn cael ei wneud.' Gallwn wneud hynny, bawb ohonom. Gallwn weddio dros y teulu hwn a phob teulu arall a ddiodefodd amgylchiadau tebyg. Gallwn weddio y byddant yn profi nerth a chysur yn eu galar. Gallwn weddio hefyd dros eu cymunedau, a thros gymunedau ym mhob gwlad lle ceir tyndra oherwydd anghyfiawnder a chasineb o bob math. Gallwn weddio y bydd pobl y cymunedau hynny'n cael eu trin yn gyfiawn, beth bynnag eu lliw a'u hil a'u ffydd. Ac ie, cyn iddynt hwythau, fel Tamir a Jerame fynd yn angor, gallwn hefyd weddio dros y teuluoedd a'r cymdogaethau yn Kenya sy'n galaru o golli bron i 150 o fyfyrwyr a laddwyd ym Mhrifysgol Garissa ar Ebrill 2. A chydag Anthony Scott, gweddio gan gofio y gall gweddi newid pethau ac esgor ar gyfiawnder.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed bendith Duw ar ein haddoliad heddiw. Boed i lawenydd a buddugoliaeth y Pasg y buom yn ei ddathlu'r wythnos ddiwethaf aros gyda ni.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch ac oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

Bydd yr Ysgol Sul yn Neiniolen am 10.15 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Elwyn Richards, Caernarfon. Croeso cynnes iddo.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Miss Nerys Jackson, Caernarfon. Croeso cynnes iddi hithau.

Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Dymuno'n dda

Wrth groesawu'r Parchg Ddr Elwyn Richards, Caernarfon i Ddeiniolen heno dyma gyfle i dymuno'n dda hefyd i'w briod, y Parchg Gwenda Richards yn ei gofalaeth newydd yn Nyffryn Nantlle. Dymunwn fendith Duw iddi hi ac i'r eglwysi a fydd dan ei gofal.

Cofion

Dymuniadau gorau i bawb sydd heb fod yn dda ar hyn o bryd ac sy'n methu â bod yn yr oedfaon.

Gŵyl Llanw

Yn ystod yr wythnos bu rhai cannoedd o bobl yng ngŵyl Llanw yng Nghricieth yn mwynhau cymdeithas Gristnogol mewn awyrgylch gynnes a chroesawgar. Roedd yno bobl o bob oed o bob rhan o'r wlad, a chafwyd pregethu grymus ac addoliad brwd. Mae'n debyg y bydd adroddiadau am Llanw ar y radio ac yn Pedair Tudalen yn y papurau enwadol.

Prif siaradwr Llanw eleni oedd Rhodri Glyn, Llansannan, mab Ifor a Nest Efans, Capel Curig, a fu'n byw yn Afon Goch, Deiniolen am rai blynyddoedd.

Pasg yn y Parc

Daeth dros 80 i 'Pasg yn y Parc' yng Nglynllifon ddydd Sadwrn y Pasg, ac mae'n braf iawn cael dweud felly bod yr ymateb wedi bod yn hynod o galonogol i'r diwrnod arbennig hwn a drefnwyd ar y cyd gan Gynllun Efe a Trobwynt.

Mae'n siwr bod Andrew wedi ei blesio yn fawr gan yr ymateb da hwn, a'i fod eisoes yn meddwl am drefnu rhywbeth tebyg cyn bo hir.

Pwyllgor Efe

Cynhelir Pwyllgor Cynllun Efe am 7.00 o'r gloch nos yfory, nos Lun, Ebrill 13, yng Nghapel y Rhos, Llanrug.

Cymdeithas Llanberis

Daw tymor y Gymdeithas i ben gyda'r ymweliad â Phant Du, Penygroes nos Fawrth, Ebrill 14.

Bydd y bws yn cychwyn o Res y Faenol am 6.20 o'r gloch ac yn dod trwy'r Stryd Fawr.

Os ydych am ddod gyda ni, rhowch eich enw i Miss Dilys Mai Roberts mor fuan â phosibl os gwelwch yn dda.

Dosbarth Beiblaidd

Bydd y Dosbarth Beiblaidd a gynhelir yn Yr Haciau, Penisarwaun yn ail ddechrau'r wythnos hon wedi toriad byr, am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, Ebrill 15.

CIC

Cynhelir CIC yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Wener yr wythnos hon, Ebrill 17.

Cyfarfod Chwarter

Bydd Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon yng nghapel Pendref, Bangor am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, Ebrill 29. Ceir anerchiad gan y Parchg Casi Jones, Clynnog.

'Dwylo Pysur'

Aeth criw ifanc 'Dwylo Pysur' Carmel Llanllechid i Benmon am dro ddydd Gwener yng nghwmni eu harweinydd, Mrs Helen Williams a rhai o aelodau'r eglwys a rhieni a chyfeillion. Cafwyd cyfle i ddysgu am yr adar a'r bywyd gwyllt wrth edrych draw at Ynys Seiriol. Bu'r ieuencid yn gwneud brasluniau o'r ynys a'r goleudy a'r bywyd gwyllt gyd-a'r bwriad o wneud lluniau manwl yn ystod sesiynau nesaf 'Dwylo Pysur'. Diolch yn fawr bawb a fu'n trefnu ac a ddaeth i helpu ac i arwain yr ieuencid.

Swper y Gymdeithas

Cynhelir Swper Blynyddol Cymdeithas Undebol Deiniolen yng Nghlwb Golff Caernarfon nos Lun, Ebrill 23. Hwn fydd cyfarfod olaf y tymor, a'r gŵr gwadd fydd Mr John Dilwyn Williams, Penygroes.

Cwrs Plant yn y Bala

Bydd Penwythnos Plant yr Ofalaeth yng Ngholeg y Bala eleni o nos Wener hyd ddydd Sul, Mai 15-17. Mae'r cwrs hwn ar gyfer plant 8 i 12 oed ac mae croeso cynnes i'ch plentyn ddod iddo.

Cost y penwythnos fydd £60. Bwriedir trefnu bws eleni eto i nôl a danfon y criw i'r Bala. Mae'r plant sydd wedi bod o'r blaen yn gwybod am yr hwyl a geir ar y cyrsiau hyn, a gwn fod rhai'n edrych ymlaen yn barod i fynd i'r Bala eto.

Mae'n gyfle arbennig i'r plant ddysgu am Iesu Grist trwy weithgareddau o bob math, yn cynnwys gemau a gwaith crefft a chanu a stori.

Os am ragor o fanylion cysylltwch â'r Gweinidog. Mae ffurflenni ar gael i archebu eich lle, ac mae angen gwneud hynny erbyn dydd olaf Ebrill fan bellaf.

Cymorth Cristnogol

Dyddiad Wythnos Cymorth Cristnogol eleni yw Mai 10-16.

Os gall rhywrai helpu gyda'r casgliad yn Llanberis eleni a wnewch chi ddweud wrth y Gweinidog mor fuan â phosibl os gwelwch yn dda. Mae angen rhagor o bobl i helpu i gasglu o ddrws i ddrws er mwyn i ni allu ymweld â phob rhan o'r pentref. Ni lwyddwyd i wneud hynny'r llynedd oherwydd prinder casglyddion.